# PRENTISIAETHAU – DYSGWR

## CANLLAWIAU YMGEISWYR

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydnabod ymroddiad a sgiliau ardderchog yr unigolion sydd wedi dewis y Rhaglen Brentisiaethau fel llwybr at lwyddiant.

Dylai'r ceisiadau ddangos un neu fwy o'r isod:

- Ymroddiad pendant gan brentis i ddatblygiad personol parhaus.
- Bod y prentis wedi cyfrannu'n sylweddol at y busnes gan gynnig gwerth ychwanegol.
- Bod y prentis wedi dangos sgiliau ardderchog a/neu wedi cyfrannu'n sylweddol at y sector lle mae'n gweithio.
- Y "pellter a deithiwyd" gan y prentis er mwyn llwyddo yn y maes a ddewiswyd ganddo/ganddi.

### Prentis Sylfaen y Flwyddyn (Cyfateb i NVQ Lefel 2)

Er mwyn ymgeisio am y wobr hon mae'n rhaid:

- Eich bod wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth Sylfaen yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- Nad oeddech wedi'i chwblhau cyn 1 Awst 2020 a'ch bod wedi'i chwblau neu'n disgwyl ei chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

### Prentis y Flwyddyn (Cyfateb i NVQ Lefel 3)

Er mwyn ymgeisio am y wobr hon mae'n rhaid:

- Eich bod wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- Nad oeddech wedi'i chwblhau cyn 1 Awst 2020 a'ch bod wedi'i chwblau neu'n disgwyl ei chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

### Prentis Uwch y Flwyddyn, yn cynnwys Prentis Gradd (Cymwysterau Lefel 4 neu uwch)

Er mwyn ymgeisio am y wobr hon mae'n rhaid:

- Eich bod wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth Uwch yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- Nad oeddech wedi'i chwblhau cyn 1 Awst 2020 a'ch bod wedi'i chwblau neu'n disgwyl ei chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

**Adran 1:** Manylion y dysgwr – i'w llenwi gan y darparwr dysgu sy'n enwebu.

**Adran 2:** Manylion y cyflogwr – i'w llenwi gan y prentis.

**Adran 3:** Manylion y darparwr dysgu – i'w llenwi gan y prentis.

**Adran 4:** Manylion y brentisiaeth – i'w llenwi gan y prentis.

### C1. Rhowch fanylion y Rhaglen Brentisiaeth yr ydych wedi'i chwblhau neu'n disgwyl ei chwblhau

Mae'n rhaid i chi gynnwys:

- Teitl llawn eich Fframwaith Prentisiaeth.
- Gwybodaeth i ddweud pryd y gwnaethoch chi gwblhau (neu pryd yr ydych yn disgwyl cwblhau) eich Rhaglen Brentisiaeth.
- Gwybodaeth am y cymwysterau yr ydych wedi'u hennill (neu yn disgwyl eu hennill) o ganlyniad i gwblhau'ch prentisiaeth.

### C2. Rhowch fanylion unrhyw raglen ddysgu yr oeddech arni (yn cynnwys y cymwysterau yr ydych wedi'u hennill) cyn dechrau ar eich prentisiaeth

### C3. Disgrifiwch eich Rhaglen Brentisiaeth (hyd at 250 gair)

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Y rhesymau pam y gwnaethoch chi benderfynu gwneud prentisiaeth.
- Eich rhaglen ddysgu.
- Unrhyw rwystrau oedd yn eich wynebu ac y daethoch drostynt yn llwyddiannus naill ai cyn neu yn ystod eich Rhaglen Brentisiaeth.

**Adran 5:** Eich stori – i'w llenwi gan y prentis.

### C4. Dywedwch dri pheth wrthym am y ffordd y mae'ch prentisiaeth wedi cyfrannu at lwyddiant busnes eich cyflogwr (hyd at 400 gair)

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau) am:

- Unrhyw ganlyniadau mesuradwy a sicrhawyd o ganlyniad i'ch cyfraniad chi. Er enghraifft, canran y cynnydd mewn gwerthiant a/neu broffidioldeb, ffyrdd mwy effeithlon o weithio, morâl y staff yn uwch ac ati. Rhowch ystadegau a/neu dystiolaeth i ddangos yr effaith yr ydych chi, fel prentis, wedi'i chael ar y busnes.
- Y ffyrdd yr ydych wedi hybu dysgu, wedi mynd ati i weithredu ar eich syniadau a/neu wedi dangos sgiliau entrepreneuraidd.

**C5. Disgrifiwch eich cynnydd personol yn ystod Rhaglen y Brentisiaeth (hyd at 400 gair).**

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Eich statws presennol o ran swydd.
- Unrhyw ganlyniadau personol sy'n gysylltiedig â Rhaglen eich Prentisiaeth e.e. cystadlaethau sgiliau yr ydych wedi cymryd rhan ynddynt, cyfle i weithio ar draws eich sector etc.
- Gwelliannau o ran eich hyder, eich hunan-fri, neu'ch cyflogadwyedd o ganlyniad i wneud prentisiaeth.

**C6. Disgrifiwch eich ymrwymiad i ddysgu a'r pethau yr ydych wedi'u cyflawni (hyd at 400 gair)**

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Sut yr aethoch ati i herio'ch hunan, a sut yr ydych wedi ymdrechu i gael eich cydnabod am eich rhagoriaeth o ran eich dysgu a'ch sgiliau.
- Unrhyw gynllun dysgu pellach yr ydych wedi'i ddilyn (neu'n bwriadu ei ddilyn) o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi gwneud prentisiaeth.

**C7. Nodwch sut y mae'r hyn a ddysgoch wedi'ch galluogi i gyfrannu at amcanion/gynllun busnes eich cyflogwr neu hyd yn oed i ddatblygu eich busnes eich hunan (hyd at 400 gair)**

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau) am:

- Unrhyw ganlyniadau mesuradwy a sicrhawyd o ganlyniad i'ch cyfraniad e.e. cynnydd mewn gwerthiant/proffidioldeb, ffyrdd mwy effeithlon o weithio, morâl y staff yn uwch.
- Y ffyrdd yr ydych wedi hybu dysgu, wedi mynd ati i weithredu ar eich syniadau a/neu wedi dangos sgiliau entrepreneuraidd.

**Adran 6:** Cefnogaeth y cyflogwr – yr adran hon i'w llenwi gan y cyflogwr.

**C8. Yn eich barn chi, pam y dylid ystyried yr unigolyn hwn ar gyfer un o wobrau Prentis y Flwyddyn? (hyd at 250 gair)**

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau) am:

- Y cyfraniad y mae'r unigolyn wedi'i wneud i'r sefydliad.
- Y ffordd y mae'r unigolyn wedi goresgyn rhwystrau wrth ddilyn y Fframwaith Prentisiaeth.

- Y ffordd y mae'r unigolyn wedi herio'i hunan (ac eraill) yn gyson wrth ymgymryd â Rhaglen y Brentisiaeth.
- Beth sy'n ei (g)wneud yn ymgeisydd arbennig?

**Adran 7:** Datganiad – i'w llenwi gan y prentis.

## C9. Datganiad

Mae'r dysgwr a enwir yn y cais hwn yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer Gwobr Prentis y Flwyddyn, ac mae'n cadarnhau bod y manylion a roddir yn y cais yn gywir.

Wrth ymgeisio am Wobr Prentis y Flwyddyn, rwy'n cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnwys tynnu lluniau, ffilmio a datblygu astudiaethau achos ymhlith pethau eraill. Rwy'n deall y bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad ac wedyn fel rhan o waith cyhoeddusrwydd Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Yn ogystal, os caf fy newis i gyrraedd y Rhestr Fer ac na fyddaf yn gallu mynd i'r Seremoni Wobrwyo am ryw reswm, byddaf yn sicrhau bod rhywun yn mynd ar fy rhan.

Rwy'n cytuno â'r datganiad.

☐ Ydw

☐ Na

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, gall fod peth cyhoeddusrwydd i'ch cais yn y cyfryngau. Gofynnir i chi gadarnhau un o'r pethau isod:

☐ Rwy'n 18 neu drosodd ac yn fodlon rhoi caniatâd ar gyfer cyhoeddusrwydd yn ymwneud â fy nghais

☐ Rwyf o dan 18 ac mae gennyf ganiatâd gan fy rhiant/gwarcheidwad i gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd yn ymwneud â fy nghais

## Preifatrwydd

Caiff pob ymgais ei thrin yn hollol gyfrinachol. Dim ond er mwyn hyrwyddo Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru a'u Rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd ehangach y bydd Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) yn defnyddio'r wybodaeth a roddir. Nid ydym yn gallu anfon y ceisiadau na'r wybodaeth ategol yn ôl.